Graham Goodlad

# Pam enillodd Llafur Etholiad Cyffredinol 1945?

**Os nad oedd Prydain yn wlad sosialaidd yn 1945, pam y gwnaeth hi bleidleisio dros Lafur?**

Roedd etholiad cyffredinol mis Gorffennaf 1945, pan etholwyd llywodraeth Lafur â mwyafrif o 146 o seddau, yn un o benodau mwyaf dramatig hanes gwleidyddiaeth fodern Prydain. Arweiniodd hyn at 6 mlynedd o ddiwygio radical dan arweinyddiaeth Clement Attlee, cyfnod a welodd sefydlu y **wladwriaeth les**, **gwladoli** helaeth ar ddiwydiannau Prydain a diwedd yr ymerodraeth yn India a Phalesteina.

Yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel, mewn gwrthgyferbyniad, dim ond dwy weinyddiaeth leiafrifol fyrhoedlog y llwyddodd Llafur i'w ffurfio. Wedi cwymp yr ail o'r rhain, yn ystod argyfwng ariannol 1931, trechwyd y blaid yn llwyr yn y blychau pleidleisio a dyna pryd yr ymddangosodd y **Llywodraeth Genedlaethol** a oedd, fwy na heb, yn un Geidwadol.

**gwladwriaeth les** *(welfare state)*: y wladwriaeth yn darparu system o fuddiannau nawdd cymdeithasol, gwasanaeth iechyd, addysg a thai i bawb, gyda'r nod o greu cymdeithas sy'n fwy cyfiawn a chyfartal.

**gwladoli** *(nationalisation)*: y wladwriaeth yn berchen ar ddiwydiannau a gwasanaethau, un o syniadau canolog y Blaid Lafur draddodiadol.


**Llywodraeth Genedlaethol:** llywodraeth o Geidwadwyr yn bennaf, wedi cynghreirio â chyn-aelodau o'r Blaid Ryddfrydol a'r Blaid Lafur, mewn grym 1931–40.

## Cysyniad allweddol

### Achosiaeth

Cyn i chi ddarllen hwn

*Nodwch brif bwyntiau maniffesto Llafur yn etholiad 1945. Beth oedd mor ddeniadol yn ei gylch?*




© TopFoto

*Un o bosteri'r Blaid Lafur, 1945*

Mae'n wir bod Llafur yn gyson ar y blaen i'r Ceidwadwyr mewn polau piniwn o Fehefin 1943 ymlaen. Fodd bynnag, ychydig iawn o sylwebwyr oedd wedi disgwyl y golled drom a gafodd y Ceidwadwyr yn 1945 ac arweinydd Prydain yn ystod y rhyfel, Winston Churchill, yn cael ei wrthod. Roedd yn arbennig o nodedig bod Llafur wedi gallu ennill seddau y tu hwnt i'w **chadarnleoedd** sefydledig ymhlith y dosbarth gweithiol diwydiannol. Enillodd Llafur lawer o etholaethau maestrefol, dosbarth canol yn bennaf, yn ne-ddwyrain a chanolbarth Lloegr, ynghyd â rhai seddau gwledig. Sut gallwn ni egluro'r newid trawiadol hwn mewn ffawd wleidyddol?

**cadarnleoedd** *(heartlands)*: ardaloedd craidd o gefnogaeth i blaid wleidyddol. Yn achos Llafur, ardaloedd y diwydiannau trwm yng ngogledd Lloegr, rhannau o ganolbarth Lloegr, de Cymru a'r Alban drefol.



© TopFoto

*Clement Attlee (canol) ar ôl iddo ennill ei sedd yn etholaeth Limehouse yn Stepney, Llundain.*

**Pwyntiau allweddol**

- Cafwyd yn sgil yr Ail Ryfel Byd newid sylweddol ym marn y cyhoedd, tuag at gefnogi gweithredu gan y Llywodraeth i greu cymdeithas decach, fwy cyfiawn.
- Roedd rhaglen y Blaid Lafur yn cyd-fynd â'r awydd hwn am newid cymdeithasol.
- Roedd Llafur yn gallu apelio at lawer o bleidleiswyr dosbarth canol yn ogystal ag at ei sylfaen o blith y dosbarth gweithiol diwydiannol, trefol.
- Mewn cyferbyniad, methodd y Blaid Geidwadol â chyfleu apêl gadarnhaol a chysylltid hi â delweddau o'r cyfnod cyn y rhyfel o ddiweithdra torfol a methiant y llywodraeth.
- Fel arweinydd y Ceidwadwyr, roedd Churchill yn cael ei gysylltu'n gryf â'r ymdrech ryfel yn hytrach na chyda materion cartref.
- Roedd pobl yn credu, pe gellid cynnull y genedl at ddibenion milwrol, y gallai'r llywodraeth hefyd gyfeirio ei hymdrechion i ailadeiladu wedi'r rhyfel.
- Mae'n bosibl bod y dirywio a fu ar beiriant trefnu'r Blaid Geidwadol yn ystod y rhyfel wedi cynyddu maint ei cholled.

| | Nifer y seddau | % o gyfanswm y bleidlais |
|---|---|---|
| Llafur | 393 | 47.8 |
| Ceidwadwyr a'u cynghreiriaid | 213 | 39.8 |
| Rhyddfrydwyr | 12 | 9.0 |
| Eraill | 22 | 2.8 |

*Tabl 1 Etholiad Cyffredinol 1945*

## Newid ym marn y cyhoedd

Mae'r rhan fwyaf o haneswyr yn cytuno y gellir olrhain buddugoliaeth Llafur i newid ym marn y cyhoedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafodd y newid hwn ei guddio i ryw raddau gan fodolaeth 'cadoediad pleidiol', gan fod y tair prif blaid wedi cytuno i beidio ag ymladd isetholiadau yn ystod y rhyfel. Fodd bynnag, roedd arwyddion eraill o symudiad i'r chwith ymhlith y cyhoedd oedd â phleidlais. Fe enillodd plaid fechan flaengar, Common Wealth, dri isetholiad.

Yn y cyfamser, ymddangosodd tensiynau o fewn llywodraeth glymblaid Churchill yn sgil cyhoeddi Adroddiad Beveridge ym mis Rhagfyr 1942. Galwodd awdur yr adroddiad, Syr William Beveridge, am ymdrech ar y cyd gan y wladwriaeth i fynd i'r afael â'r hyn a ddisgrifiodd fel y 'pum cawr' oedd wedi difetha Prydain cyn y rhyfel: prinder, afiechyd, anwybodaeth, aflendid a diogi. Yr oedd yn siarad o blaid yswiriant cymdeithasol cynhwysfawr, gwasanaeth iechyd gwladol, lwfansau plant a gweithredu gan y llywodraeth i gynnal cyflogaeth lawn. Bu i'r adroddiad daro tant â'r cyhoedd, a gwerthwyd mwy na 630,000 o gopïau ohono. Cafodd ei groesawu gan aelodau Llafur y glymblaid, tra bod y Ceidwadwyr yn tueddu i fod yn llai brwdfrydig, gan ei ystyried fel rhywbeth na allai cenedl oedd yn dal i fod ynghanol rhyfel byd mawr prin ei fforddio.

Roedd y gwahaniaeth barn hwn yn nodweddiadol o anghytundeb dyfnach ynghylch blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Yn wahanol i'r Ceidwadwyr, fe groesawodd y Blaid Lafur yn frwdfrydig y cysyniad o weithredu gan y llywodraeth i greu cymdeithas decach. Roedd hyn yn cyd-fynd â newid ym marn y cyhoedd a oedd yn fwyfwy amlwg o 1942 ymlaen, wrth iddi ddod yn glir y byddai'r Natsïaid yn cael eu trechu yn y pen draw ac felly ei bod yn bosibl dechrau meddwl am siâp y byd wedi'r rhyfel.

Roedd cynhadledd Llafur ym mis Mai 1945 yn ymgorfforiad o'r awydd hwn am newid. Fel yr un a fyddai'n dod yn y man yn ganghellor Llafur, cofiai Denis Healey wrth edrych yn ôl (ac yntau ar y pryd yn uwchgapten yn y fyddin ac yn ymgeisydd seneddol), 'roedd yna awyrgylch o "fynd amdani" ac roedd pawb yn adain chwith … y peth allweddol oedd bod arnom eisiau ailadeiladu cymdeithas dda yn seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol'. Roedd maniffesto'r blaid yn datgan 'bod angen ailwampio'r genedl yn aruthrol, rhaglen enfawr o foderneiddio ac ailgyfarparu ei chartrefi, ei ffatrïoedd a'i pheirianwaith, ei hysgolion, ei gwasanaethau cymdeithasol.' Addawodd wireddu hyn drwy gyfrwng 'polisïau drastig i ailgynllunio a thrwy gadw gafael adeiladol a chadarn ar ein peirianwaith cynhyrchu'.

Nid yw hyn yn golygu bod y genedl wedi ei hargyhoeddi o ideoleg **sosialaeth**. Yn hytrach, roedd y Blaid Lafur yn ymddangos fel petai'n cynnig atebion ymarferol i anghenion materol pwysicaf pobl Prydain wrth iddynt godi ar eu traed wedi bron i 6 mlynedd o fomio, prinder a dioddef. Mewn pôl piniwn a gynhaliwyd ym mis Ebrill 1945, nododd 41% o'r rhai wnaeth ymateb mai tai oedd y pwnc canolog yn yr etholiad oedd ar y gorwel ac roedd cyfran debyg ohonynt o'r farn mai Llafur oedd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r mater. Wrth ymgyrchu yng Nghaerdydd, canolbwyntiodd y darpar brif weinidog, James Callaghan, ar y galw ymhlith y cyhoedd am **ddadfyddino** milwyr yn ddi-oed ac adeiladu cartrefi newydd. Ei slogan etholiadol ef ei hun oedd, 'Fe adeiladon ni'r Spitfires, nawr fe allwn ni adeiladu'r tai.'

Mewn gwrthgyferbyniad, methodd y Ceidwadwyr â chofleidio gweledigaeth gadarnhaol o ailadeiladu wedi'r rhyfel. Rhoddasant yr argraff eu bod yn amheus o ymyrraeth gan y wladwriaeth ac o ddiwygio'r system les. Er ei fod ymhell o fod yn anymwybodol o'r caledi yr oedd pobl Prydain wedi'i wynebu, roedd Churchill yn ddigydymdeimlad o ran y syniad o gynllunio gan y llywodraeth, a oedd wrth graidd ymgyrch Llafur. Roedd parch cyffredinol i'w rôl fel arweinydd Prydain yn ystod y rhyfel, ond ceid teimlad hefyd nad oedd wedi addasu'n dda i ofynion cyfnod o heddwch. Roedd yn dibynnu fwyfwy ar ddau o'i ffrindiau personol oedd hefyd yn gydweithwyr iddo, Brendan Bracken a'r teicŵn papur newydd, yr Arglwydd Beaverbrook, a atgyfnerthodd ei ymlyniad at werthoedd menter breifat.

Un o gamgymeriadau mwyaf Churchill, mewn darllediad ar 4 Mehefin, oedd datgan mai dim ond gyda chefnogaeth peirianwaith heddlu cudd, yn debyg i'r Gestapo yn yr Almaen Natsïaidd, y gellid gwireddu rhaglen sosialaidd. Ystyriwyd hyn yn eang fel sarhad

**sosialaeth** *(socialism)*: cred mewn ehangu rôl y wladwriaeth yn yr economi, er budd gwell cyfiawnder cymdeithasol.

**dadfyddino** *(demobilisation)*: proses o ddychwelyd milwyr i fywyd sifil wedi rhyfel.

pleidiol annheilwng gan arweinydd cenedlaethol oedd wedi'i barchu cyn hynny, ac a oedd wedi bod yn fodlon cydweithio ag arweinwyr Llafur yn y rhyfel yn erbyn Hitler. I'r cyhoedd yn gyffredinol, yn 1945 roedd gan 'sosialaeth' gysylltiadau cadarnhaol ag ymdrech ar y cyd gan y gymuned yn wyneb bygythiad allanol. Fel y dywedodd merch Churchill, Sarah, wrtho'n breifat, 'Nid oes amheuaeth mai'r cydrannu a'r cydaberthu hwn oedd un o'r rhwymau cryfaf oedd yn ein huno. Felly pam, maent yn holi, na ellir gwneud i'r teimlad cyffredin hwn o aberth weithio yr un mor effeithiol mewn cyfnod o heddwch?'

## Gwleidyddion Llafur blaenllaw

**Clement Attlee (1883–1967)**

1935–55 Arweinydd y Blaid Lafur; yr arweinydd plaid a wasanaethodd hiraf yn ystod yr ugeinfed ganrif.
1940–45 Dirprwy brif weinidog yng nghlymblaid Churchill.
1945–51 Prif weinidog.

**Ernest Bevin (1881–1951)**

Cefndir fel trefnydd undebau llafur.
1921–40 Creu ac arwain Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (TGWU).
1940–45 Gweinidog llafur a gwasanaeth cenedlaethol yng nghlymblaid Churchill.
1945–51 Ysgrifennydd tramor a ffigur allweddol yn llywodraeth Attlee.

**Herbert Morrison (1888–1965)**

1940–45 Ysgrifennydd cartref yn y glymblaid adeg y rhyfel.
1945–51 Dirprwy brif weinidog ac arglwydd lywydd y Cyngor yn llywodraeth Attlee.
1951 Ysgrifennydd tramor am gyfnod byr.

## Byth eto

Wrth edrych yn ôl ar yr etholiad 20 mlynedd yn ddiweddarach, ystyriai Attlee nad oedd y pleidleiswyr wedi gwrthod Churchill fel unigolyn, ond yn hytrach record y Blaid Geidwadol mewn llywodraeth cyn y rhyfel. Ysgrifennodd Harold Macmillan, un o bum gweinidog Cabinet i golli ei sedd yn 1945, fel hyn: 'Nid Churchill a gollodd etholiad 1945 ond ysbryd Neville Chamberlain.' Ensyniad y sylwadau hyn oedd bod atgofion negyddol o'r polisi aflwyddiannus o **ddyhuddiad** a'r diweithdra torfol pan oedd y Llywodraeth Geidwadol mewn grym yn yr 1930au wedi dylanwadu ar bleidleiswyr. Cyfeiriwyd yn rheolaidd at y **prawf modd** amhoblogaidd, a orfodwyd ar ymgeiswyr am gymorth diweithdra. Roedd deunydd cyhoeddusrwydd Llafur yn pwysleisio thema 'byth eto'; roedd un poster, er enghraifft, yn dwyn y slogan, '*No more dole queues … so it's Labour for security.*' Roedd nifer o lyfrau a phamffledi adeg y rhyfel, yr enwocaf ohonynt dan y teitl *Guilty Men*, yn beio'r llywodraeth cyn y rhyfel am ddiffyg parodrwydd Prydain yn wyneb bygythiad y Natsïaid.

Mae'n bwysig bod yn eglur ynghylch y rhan a chwaraewyd gan atgofion o'r 'tridegau llwglyd' yn etholiad 1945. Yn y gystadleuaeth ddiwethaf, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 1935, dychwelwyd y Llywodraeth Genedlaethol â mwyafrif ysgubol o 242 o seddau. Digwyddodd hyn ar adeg pan oedd tua 2.4 miliwn o weithwyr di-waith ym Mhrydain. Yn fwy na hynny, roedd y Ceidwadwyr a'u cynghreiriaid wedi gallu cipio seddau trefol fel y rhai yn Birmingham, Newcastle-upon-Tyne, Caerdydd a Southampton. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd profiad cyfnod y rhyfel o safbwynt newid agweddau pobl.

Nid oedd caledi a oddefwyd cyn 1939 yn dderbyniol mwyach i boblogaeth oedd wedi profi capasiti'r llywodraeth i gyfeirio'r economi, i warantu cyflogaeth lawn ac i ddyrannu adnoddau drwy ddogni. Yng ngeiriau Barbara Castle, a etholwyd yn AS Llafur Blackburn yn 1945, 'Yr oedd, ym mhob ystyr o'r gair, yn rhyfel sifil. Roedden nhw'n gwybod mai cynllunio a chyfrannau teg a dosbarthu cwbl deg ar hanfodion bywyd oedd wedi ennill y rhyfel, ac roedd arnyn nhw eisiau hynny mewn cyfnod o heddwch.'

**dyhuddiad** *(appeasement)*: label a roddwyd ar bolisi llywodraethau Prydeinig tuag at bwerau a allai fod yn rhai gelyniaethus yn yr 1930au, â'r nod o sicrhau heddwch drwy wneud consesiynau.

**prawf modd** *(means test)*: asesiad o incwm person di-waith, a wnaed i bennu ei hawl i fudd-dal diweithdra. Mewn grym rhwng 1931 ac 1941.

## Llinell amser, 1945

**23 Mai** Diddymu clymblaid cyfnod y rhyfel; Churchill yn arwain llywodraeth dros dro nes bod canlyniadau'r etholiad yn hysbys.

**4 Mehefin** Darllediad 'Gestapo' Churchill, yn honni'r defnydd o ddulliau awdurdodaidd gan y ddarpar lywodraeth Lafur.

**5 Gorffennaf** Diwrnod y bleidlais.

**26 Gorffennaf** Canlyniadau'n cael eu cyhoeddi wedi i bleidleisiau'r gwasanaethau arfog gael eu cyfrif; Llafur â mwyafrif o 146 o seddau; Attlee yn cymryd lle Churchill fel prif weinidog.

## Cwestiynau

- Beth oedd bwysicaf o safbwynt buddugoliaeth Llafur: breuddwydion pobl neu gynlluniau Llafur?
- Pam y byddai atgofion o ddiweithdra yn yr 1930au wedi gwneud i bobl bleidleisio dros Lafur yn 1945 pan na wnaethant bleidleisio dros Lafur yn yr 1930au?
- Sut y gallai Llafur elwa o'r syniad bod pleidlais y gwasanaethau milwrol wedi penderfynu canlyniad yr etholiad?

## Parod a threfnus ar gyfer y frwydr?

Mae rhai haneswyr wedi dadlau bod colled y Ceidwadwyr wedi'i gwaethygu gan gyflwr gwael trefniadaeth y blaid. Maent yn tynnu sylw at y 246 o asiantau'r blaid a roddodd y gorau i'w dyletswyddau etholaethol i ymuno â'r lluoedd arfog neu i gymryd rhan mewn mathau eraill o waith rhyfel. Yn wahanol i Lafur, ni chynhaliodd y Ceidwadwyr gynadleddau plaid trwy gydol y rhyfel. Yn ôl yr hanesydd Stuart Ball, 'i bob diben ymarferol, erbyn dechrau 1944 roedd y Blaid Geidwadol ar lefel etholaethol bron ar ddarfod'. Er y gwnaed ymdrech i adfywio peirianwaith y blaid wrth i'r etholiad agosáu, gadawyd hi'n rhy hwyr.

Mae'n bosibl gorbwysleisio pwysigrwydd ffactorau trefniadol. Yn ei astudiaeth arloesol *The Road to 1945*, mae Paul Addison yn dadlau nad oedd gan Lafur fantais amlwg yn y maes hwn. Dim ond 58 o asiantau llawn-amser oedd ganddi ym mis Mawrth 1945, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ddibrofiad. Mae'n ymddangos yn deg i ddod i'r casgliad bod ymgyrchoedd y *ddwy* blaid, i raddau helaeth, yn rhai byrfyfyr, munud olaf. Roedd trefniadaeth y Ceidwadwyr yn sicr yn wannach nag y bu adeg heddwch. Dim ond £3,000 a wariwyd ar gyhoeddusrwydd, prin un rhan o ddeg o'r hyn a wariwyd yn 1935. Roedd ymgyrch y blaid wedi'i chydlynu'n wael a chafodd llawer o bolisïau eu drafftio ar frys. Y duedd oedd cwympo'n ôl ar y thema o ymddiriedaeth yn Churchill fel arweinydd gwych, a hynny wedi'i grynhoi yn y slogan 'Help him finish the job'. Ac ystyried disgwyliadau'r etholwyr, roedd y gri hon yn annigonol fel galwad arnynt i uno.

## Pwy bleidleisiodd dros Lafur?

Roedd yn fyth poblogaidd fod pleidlais y milwyr wedi chwarae rhan dyngedfennol ym muddugoliaeth Llafur. Gohiriwyd cyhoeddi canlyniad yr etholiad am 3 wythnos i ganiatáu amser ar gyfer cyfrif y pleidleisiau hyn – llawer ohonynt wedi'u bwrw gan ddynion oedd wedi'u lleoli yn y dwyrain pell. Mae'r


© TopFoto

Ernest Bevin, un o ffigurau mwyaf blaenllaw y Blaid Lafur

hanesydd Kenneth Morgan wedi cyfrifo mai dim ond 60% o filwyr wnaeth bleidleisio, o ganlyniad i anawsterau wrth anfon a chasglu ffurflenni pleidleisio. Cyfran fach yn unig oedd hon o gyfanswm y pleidleisiau gafodd eu bwrw yn yr etholiad. Ar y llaw arall, ceir tystiolaeth gref fod llawer o filwyr wedi'u radicaleiddio gan y rhyfel. Efallai fod pryderon ynghylch pa mor hir y byddai'r rhyfel yn erbyn Japan yn para wedi dylanwadu arnynt. Yn bwysicach, roedd personél milwrol yn rhannu'r un pryderon materol a oedd yn effeithio ar sifiliaid gartref.

Ymddengys yn eglur fod addewidion Llafur ynghylch gwell cymdeithas wedi apelio ar draws ffiniau dosbarth. Roedd llawer o bleidleiswyr dosbarth canol, na fyddent fel arfer wedi dewis y Blaid Lafur, yn gweld ei syniadau **cyfunolaidd** mewn golau mwy cadarnhaol o ganlyniad i'w profiadau yn ystod y rhyfel. Roedd cynigion y blaid am wasanaeth iechyd gwladol ac i weithredu ar broblemau cymdeithasol eraill yn creu delwedd ddeniadol o'r dyfodol. Roedd ei ffigurau mwyaf blaenllaw — Attlee ei hun, Ernest Bevin a Herbert Morrison — oll wedi dal swyddi uchel yng nghlymblaid Churchill ac yn cyfleu delwedd o awdurdod a phrofiad. Roedd yna naws gyffredinol o optimistiaeth a dim ond Llafur oedd mewn cytgord â'r naws honno. Byddai'r llywodraeth newydd yn wynebu problemau economaidd aruthrol a her ryngwladol y Rhyfel Oer. Yn ystod haf 1945, wrth i'r criw newydd o ASau Llafur ganu *The Red Flag* yn fuddugoliaethus wrth iddynt ymgynnull yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd hynny oll o'u blaen.

**cyfunolaidd** *(collectivist)*: yn ffafrio mwy o ymwneud gan y llywodraeth mewn materion cymdeithasol ac economaidd.

## Dolennau gwe

Mae rhai academyddion yn arbenigo mewn astudio etholiadau ac mae 1945 yn un o'u ffefrynnau. Mae'r BBC yn hoffi galw arnynt fel arbenigwyr i gyfoethogi eu darllediadau gwleidyddol a gallwch weld rhywfaint o'r hyn sy'n arwain at amlinelliad Paul Addison o etholiad 1945 ar: www.bbc.co.uk/history/worldwars/wwtwo/election_01.shtml.

Ceir rhagor o ddadansoddi manwl ar: www.bbc.co.uk/politics97/background/pastelec/ge45.shtml. Nid yw'n sicr o bell ffordd fod yr holl bleidleiswyr yn eu defnyddio wrth benderfynu sut i bleidleisio – gall ymddangosiad gwleidydd gael yr un faint o ddylanwad ar bleidleiswyr – ond at ddibenion dehongli hanesyddol mae'n bwysig edrych ar yr hyn yr oedd y pleidiau yn ei addo mewn gwirionedd yn eu maniffestos. Mae'r adran wleidyddiaeth yn Keele yn cadw archif o ddeunydd etholiad, a gallwch ganfod maniffestos y tair prif blaid o 1945 ar www.psr.keele.ac.uk/area/uk/man.htm.

## Darllen pellach

Addison, P. (1975) *The Road to 1945: British Politics and the Second World War*, Jonathan Cape.

Ball, S. (1995) *The Conservative Party and British Politics 1902–1951*, Longman, cyfres Seminar Studies in History.

Brooke, S. (1992) *Labour's War*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Jefferys, K. (1991) *The Churchill Coalition and Wartime Politics*, 1940–1945, Gwasg Prifysgol Manceinion.

Mitchell, A. (1995) *Election '45: Reflections on the Revolution in Britain*, Fabian Society.

Morgan, K. (1984) *Labour in Power 1945–1951*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

*Mae **Dr Graham Goodlad** yn Gyfarwyddwr Astudiaethau yng Ngholeg St John, Southsea. Mae'n awdur nifer o lyfrau ac erthyglau ar hanes gwleidyddol, ac mae'n cyfrannu'n rheolaidd i'r TWENTIETH CENTURY HISTORY REVIEW.*